

# Ymgynghoriad - Adolygiad o'r Rheolau a'r Canllawiau ar ddefnyddio Adnoddau'r Senedd

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â Rheol 8 o'r Cod Ymddygiad.



## Cynnwys

<b>1. Sut i gyflwyno ymateb .....</b>	<b>4</b>
<b>2. Hysbysiad Preifatrwydd.....</b>	<b>5</b>
<b>3. Cyflwyniad.....</b>	<b>8</b>
<b>4. Cynigion ar gyflogi staff a ariennir gydag adnoddau'r Comisiwn ..</b>	<b>10</b>
Cefndir .....	10
Ystyriaethau .....	10
<b>5. Cynigion ar ddiffinio gweithgaredd gwleidyddol plaid at ddiben defnyddio adnoddau .....</b>	<b>14</b>
Cefndir .....	14
Ystyriaethau .....	17
<b>6. Cynigion ar ddiogelu data .....</b>	<b>21</b>
Cefndir .....	21
Ystyriaethau .....	21
<b>7. Cynigion ar gyfathrebu ac ymgysylltu ag etholwyr gan ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn .....</b>	<b>24</b>
Cefndir .....	24
Ystyriaethau .....	25
Cynigion .....	33
<b>8. Cynigion ar fetio Diogelwch.....</b>	<b>34</b>
Cefndir .....	34
Ystyriaethau .....	34
<b>9. Eglurhad o'r geiriad.....</b>	<b>36</b>
Cefndir .....	36
Ystyriaethau .....	36
Cynigion .....	36
<b>10. Crynodeb o'r cynigion.....</b>	<b>39</b>

---



## 1. Sut i gyflwyno ymateb

---

**1.** Os hoffech gyflwyno ymateb i ymgynghoriad y Swyddog Cyfrifyddu gallwch wneud hynny drwy anfon eich ymatebion i'r canlynol:

Post:

Clerc Senedd Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd CF99 1SN

E-bost: [AOconsultation@senedd.cymru](mailto:AOconsultation@senedd.cymru)

**2.** Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion yw **17 Ionawr 2022**. Ni fydd ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

**3.** Os oes angen cymorth arnoch wrth baratoi eich ymateb, cysylltwch â'r ysgrifenyddiaeth gan ddefnyddio'r manylion uchod.

## 2. Hysbysiad Preifatrwydd

---

**4.** Comisiwn y Senedd yw rheolydd data'r wybodaeth rydych yn ei darparu, a bydd yn sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei diogelu a'i defnyddio'n unol â deddfwriaeth diogelu data. Mae ein polisi preifatrwydd cyffredinol ar gael o'n gwefan yn: <https://senedd.cymru/cymorth/preifatrwydd/hysbysiad-preifatrwydd/>. Fodd bynnag, mae'r adran hon yn disgrifio sut a pham y mae'r Comisiwn yn defnyddio data personol at ddibenion penodol yr ymgynghoriad hwn, ac yn sôn am eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol.

### **Pam rydym yn casglu gwybodaeth, a'r hyn rydym yn ei wneud â'r wybodaeth**

**5.** Bydd yr hyn a gyflwynir gennych yn cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau ar newidiadau arfaethedig i Reolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd gan y Swyddog Cyfrifyddu. Bydd y Swyddog Cyfrifyddu a'r ysgrifenyddiaeth sy'n gweinyddu'r ymgynghoriad hwn yn gweld cyflwyniadau yn eu cyfanrwydd. Efallai y caiff rhywfaint o wybodaeth bersonol ei rhannu â gwahanol dimau o fewn Comisiwn y Senedd iddynt ystyried unrhyw newidiadau a sut y dylid gweinyddu unrhyw newidiadau. Efallai hefyd y bydd angen rhannu ymatebion, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gyda'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd, ac aelodau'r Bwrdd hwnnw.

**6.** Efallai y byddwn yn cyhoeddi darnau o'r hyn a gyflwynwyd gennych o fewn dogfennau a gynhyrchir yn dilyn yr ymgynghoriad, gan gynnwys ar ein gwefan. Gallai hyn gynnwys eich gwybodaeth bersonol. Bydd unrhyw wybodaeth a gyflwynir sy'n cael ei chynnwys mewn dogfennau a gyhoeddir yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd am gyfnod amhenodol. Unwaith y bydd y wybodaeth yn y parth cyhoeddus, gall trydydd parti, fel y cyfryngau neu ddarlledwyr, aildefnyddio'r rhannau cyhoeddedig hyn o gyfraniadau at eu dibenion eu hunain. Rhowch wybod i ni os nad ydych am i'r hyn a gyflwynir gennych gael ei gyhoeddi.

**7.** Caiff ymatebion eu cadw ar systemau TGCh diogel Comisiwn y Senedd (sy'n cynnwys gwasanaethau cwmwl trydydd parti a ddarperir gan Microsoft). Mae unrhyw drosglwyddiad data gan Microsoft y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn dod o dan gymalau cytundebol lle y mae Microsoft yn sicrhau bod data personol yn cael eu trin yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol. I gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd Microsoft yn defnyddio eich gwybodaeth, darllenwch ei bolisi preifatrwydd [yma](#).

**8.** Bydd ymatebion, gan gynnwys gwybodaeth bersonol o fewn yr ymatebion, yn cael eu cadw am ddim mwy na chwe mis ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad. Ar ôl y cyfnod o chwe mis, byddwn yn cadw ymatebion yn ddienw. Bydd unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi i'r cyhoedd yn parhau i fod ar gael am gyfnod amhenodol.

**9.** Os gwneir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth, mae'n bosibl y bydd angen datgelu rhywfaint o'r wybodaeth a gyflwynwyd gennych. Dim ond os yw'n ofynnol i ni yn ôl y gyfraith y byddwn yn gwneud hyn.

### **Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich gwybodaeth bersonol**

**10.** Ein sail gyfreithiol dros brosesu eich data personol yw ei bod yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd. Y dasg yw hwyluso ein gwaith a chyflawni ein swyddogaethau cyhoeddus i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Senedd at ei dibenion.

**11.** Efallai y byddwn yn prosesu eich data personol categori arbennig os byddwch yn dewis cyflwyno'r wybodaeth honno. Diffinnir data personol categori arbennig yn GDPR y DU fel data personol sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, neu aelodaeth o undeb llafur, a phrosesu data genetig, data biometrig, data sy'n ymwneud ag iechyd neu ddata sy'n ymwneud â bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol person. Bydd y data personol hyn yn cael eu prosesu ar y sail bod hynny'n angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd, a ystyrir ar y cyd ag adran 10 a pharagraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018.

### **Eich hawliau**

**12.** Mae gennych nifer o hawliau, gan gynnwys yr hawl i ofyn am fynediad i'ch gwybodaeth. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn:

- i ni gywiro unrhyw wybodaeth anghywir sydd gennym amdanoch;
- i ni ddileu gwybodaeth amdanoch (o dan rai amgylchiadau);
- i ni roi'r gorau i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion penodol neu o dan rai amgylchiadau; a
- bod eich gwybodaeth yn cael ei darparu i chi neu drydydd parti (eto, o dan rai amgylchiadau).

**13.** Ni fydd yr hawliau hynny'n gymwys ym mhob achos, a bydd y Comisiwn yn cadarnhau a yw hynny'n wir ai peidio pan fyddwch yn gwneud cais.

### **Manylion cyswllt**

**14.** Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn, gofyn cwestiwn neu wneud cwyn, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data yn:

[diogelu.data@senedd.cymru](mailto:diogelu.data@senedd.cymru)

0300 200 6565

**15.** Os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon yn dilyn cwyn, gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cyfeiriad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

SK9 5AF

Rhif y llinell gymorth: 0303 123 1113

### 3. Cyflwyniad

---

**16.** Mae'r fframwaith Safonau ar gyfer Aelodau o'r Senedd yn cynnwys y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd ('y Cod') a Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd ('y Rheolau'). Cytunwyd ar God newydd yn ystod y Bumed Senedd ar 24 Mawrth 2021, a daeth i rym ar ddechrau'r Chweched Senedd. Mae 'Rheol 8 o'r Cod' yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gydymffurfio â rheolau ar ddefnyddio adnoddau a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd, a wneir, o bryd i'w gilydd, gan Brif Swyddog Cyfrifyddu ("y Swyddog Cyfrifyddu") y Comisiwn. Mae'r ddarpariaeth yn ailddatgan darpariaeth debyg yn adran 10 o'r Cod Ymddygiad blaenorol<sup>1</sup>.

**17.** Rôl prif swyddog cyfrifyddu sefydliad sector cyhoeddus yw ennyn ffydd y cyhoedd yn ei ddefnydd o adnoddau cyhoeddus. Mae'r prif swyddog cyfrifyddu'n gyfrifol am reoleidd-dra a phriodoldeb gwariant, gwaith gwerthuso cadarn o wahanol ddulliau ar gyfer cyflawni amcanion polisi, sicrhau gwerth am arian, rheoli risg, a rhoi cyfrif cywir am y defnydd o adnoddau. Er mwyn cefnogi'r cyfrifoldebau hyn, mae angen trefn sicrwydd effeithiol ar y swyddog cyfrifyddu.

**18.** Prif swyddog cyfrifyddu'r Senedd yw'r Prif Weithredwr a Chlerc<sup>2</sup>. Yn y ddogfen hon rydym yn cyfeirio ato fel y "Swyddog Cyfrifyddu".

**19.** Cyhoeddwyd "Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd" am y tro cyntaf fel dogfen annibynnol cyn etholiadau 2016 gyda chymeradwyaeth y Swyddog Cyfrifyddu ar y pryd. Roeddent yn dwyn ynghyd mewn un lle wahanol reolau a gweithdrefnau ariannol a oedd wedi datblygu dros lawer o flynyddoedd i sicrhau bod adnoddau'r Comisiwn yn cael eu defnyddio at y diben a fwriadwyd. Yn haf 2020, ymrwymodd y Swyddog Cyfrifyddu presennol i adolygu'r Rheolau hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y darpariaethau a amlinellir yn parhau i fod yn berthnasol mewn amgylchiadau sy'n newid, a'u bod yn adlewyrchu'r profiad a gafwyd o'u rhoi ar waith. Ar ôl cyflwyno proses anffurfiol i ddechrau ar gyfer ceisio barn yr Aelodau, mae'r Swyddog Cyfrifyddu bellach yn cyflwyno proses fwy ffurfiol ar gyfer adolygu'r Rheolau.

---

<sup>1</sup> Adran 10 o'r Cod Ymddygiad blaenorol.: "Gofynnir i Aelodau gydymffurfio â'r 'Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Cynulliad' ac unrhyw ganllawiau ar y defnydd o adnoddau'r Cynulliad sy'n ymwneud yn benodol ag ymgyrchoedd etholiadol."

<sup>2</sup> Gweler adran 138, Deddf Llywodraeth Cymru 2006

---



**20.** Cyhoeddwyd Rheolau diwygiedig ym mis Medi 2020, a'u nod yw rhoi mwy o eglurder ynghylch sut y gellir defnyddio adnoddau'r Comisiwn. Gwnaed hyn mewn ymateb i geisiadau gan rai Aelodau ac yn sgil profiad a gafwyd trwy brosesau safonau a chwyno'r Aelodau. Cyflwynwyd y Rheolau ar wedd newydd a oedd hefyd yn cynnwys canllawiau ar gyfer Aelodau a'u staff, gyda'r bwriad o'u gwneud yn gliriach ac yn haws i'w defnyddio.

**21.** Ddechrau'r flwyddyn hon, ar ôl i'r rheolau diwygiedig fod ar waith am ychydig fisoedd, gwahoddwyd pob Aelod i gyflwyno eu safbwyntiau os oeddent o'r farn bod unrhyw faterion a oedd yn aneglur neu wedi'u hepgor. Ar yr un pryd, tynnwyd sylw at nifer o feysydd i'w newid yn y Rheolau. Roedd y rhain yn cynnwys rhannau o'r Rheolau y byddai'n fuddiol cynnwys eglurhad ychwanegol ohonynt, neu rannau yr oedd angen eu haddasu yn sgil profiad, a materion a godwyd gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol a'r Comisiynydd Safonau. Roedd enghreifftiau'n cynnwys ystyriaethau diogelwch ar gyfer pasys llun ar gyfer priod/partneriaid Aelodau, defnyddio logos/brandio a goblygiadau gweithio hybrid/gweithio gartref.

**22.** Mae'r newidiadau a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghori ar hyn o bryd yn ystyried nifer o faterion a godwyd gan yr Aelodau ac yn adlewyrchu cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

**23.** Gwnaed sylwadau hefyd yn nodi ffyrdd y gellid addasu geiriad y Rheolau mewn rhai rhannau, naill ai er cysondeb neu i wneud yr ystyr yn gliriach. Nid yw'r cynigion hynny'n ymwneud â newid sylwedd y Rheolau.

**24.** Mae gweddill y ddogfen hon yn amlinellu'r cynigion ar gyfer ymgynghori.

**25.** Mae'r Rheolau a Chanllawiau presennol ar gael yma: **Adran 2.3 - Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd**

## 4. Cynigion ar gyflogi staff a ariennir gydag adnoddau'r Comisiwn

### Cefndir

**26.** Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn gyfrifol am bennu tâl a lwfansau'r Aelodau. Mae ei Benderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ('y Penderfyniad') yn darparu Lwfans Gwariant Staffio i alluogi pob Aelod i hawlio costau gwariant staffio, lle mae'r rhain yn codi yn gyfan gwbl, yn unig, ac o reidrwydd i alluogi'r Gweinidog i gyflawni ei ddyletswyddau, ac yn codi o ganlyniad i hynny yn unig. Mae pob Aelod yn gyflogwr i'w staff ei hun.

**27.** Yn yr un modd, rhoddir i bob plaid wleidyddol sydd â thri neu fwy o aelodau yn y Senedd fynediad at lwfans i gynorthwyo eu Haelodau i ymgymryd â'u gwaith yn y Senedd. Dim ond mewn perthynas â chostau yr eir iddynt gan Aelodau yn gyfan gwbl, yn unig ac o reidrwydd at ddibenion cyflawni dyletswyddau Aelod y mae'r Lwfans Pleidiau Gwleidyddol yn daladwy. Mae arweinydd pob plaid wleidyddol yn gyflogwr lle defnyddir y lwfans hwn i gyflogi staff.

**28.** Mae'r Rheolau (Rheol 3) yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau sicrhau, yn ystod y cyfnod y cânt eu contractio i ymgymryd â gwaith sy'n cael ei dalu gydag adnoddau'r Comisiwn, bod yr holl staff a gyflogir ganddynt yn gwneud gwaith sy'n gysylltiedig â dyletswyddau'r Aelod yn unig (hynny yw, at y diben y gwneir y ddarpariaeth honno ar ei gyfer). Nid yw hyn yn cynnwys gweithgareddau personol, busnes neu fasnachol na chyfathrebu; gwaith sy'n ymwneud ag unrhyw rôl arall; gwaith a gweithgareddau gwleidyddol plaid sy'n arwain at enillion ariannol i'r Aelod neu unrhyw berson arall.

### Ystyriaethau

**29.** Yn ystod y Bumed Senedd, dywedodd y Comisiynydd Safonau y gallai geiriad y Rheol 3 bresennol<sup>3</sup> fod yn gliriach. Mynegwyd pryderon hefyd, yn achos cwyn yn cael ei gwneud am weithgareddau a wneir gan staff, y byddai diffyg cofnodion yn gadael yr Aelod (neu ei staff)

---

<sup>3</sup> "Rheol 3 – Cyflogi staff a ariennir gydag adnoddau'r Comisiwn

Yn achos staff a gyflogir gan Aelodau, rhaid iddynt, yn ystod yr oriau y'u contractiwyd i wneud gwaith y telir amdano gydag adnoddau'r Comisiwn, wneud gwaith mewn cysylltiad â dyletswyddau'r Aelod yn unig."

---

mewn sefyllfa lle na fyddai modd dangos tystiolaeth ynghylch a gafodd yr amser ei neilltuo ar gyfer gweithgareddau a gwmpesir gan y Penderfyniad ai peidio.

**30.** At hynny, mae'r Comisiynydd Safonau wedi lleisio pryderon y gallai, mewn rhai achosion, fod yn anodd i Aelod ddangos ei fod wedi cymryd camau i sicrhau bod ei staff wedi ymgymryd â gwaith mewn cysylltiad â dyletswyddau'r Aelod yn unig.

**31.** Mewn llythyr at y Bwrdd Taliadau Annibynnol, yng ngwanwyn 2020, gofynnodd Comisiynydd Safonau Dros Dro'r Senedd (ar y pryd) i'r Bwrdd ystyried cynnwys gofyniad yn y Penderfyniad i staff cymorth gofnodi eu horiau gwaith. Awgrymodd y Comisiynydd y byddai hyn yn annog staff cymorth i beidio â gwneud gwaith nad yw'n rhan o waith y Senedd (h.y. gwaith ar ran eu plaid gwleidyddol) yn ystod oriau gwaith y talwyd amdanynt o dan y Penderfyniad, ac y byddai'n fodd o wahaniaethu'n glir rhwng y gwaith i gefnogi'r dyletswyddau Aelodau o'r Senedd a gweithgarwch gwleidyddol plaid. Daeth y Bwrdd i'r casgliad bod y rheolau'n nodi'n glir nad oedd y Penderfyniad yn caniatáu i adnoddau, sy'n cynnwys amser staff, gael eu defnyddio ar gyfer gweithgarwch gwleidyddol plaid. Nid oedd yn teimlo bod camau pellach y gellid eu cymryd i fynd i'r afael ag achosion posibl o dorri'r rheol hon drwy'r Penderfyniad, ond cytunodd i drafod y mater ymhellach gyda'r Comisiynydd Safonau Dros Dro a Chomisiwn y Senedd<sup>4</sup>. Cyflwynodd y Swyddog Cyfrifyddu real dros dro oddeutu cyfnod yr etholiad yn 2021 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gadw cofnodion cywir o'r oriau mae staff yn eu gweithio mewn perthynas â dyletswyddau Aelodau (gan gynnwys staff y Grŵp).

**32.** Mae ACAS yn cynghori<sup>5</sup> y dylai cyflogwyr gadw cofnod o oriau gwaith cyflogeion (gan gynnwys goramser) i ddangos nad ydynt yn gweithio dros y terfyn cyfreithiol. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed pan fo gan y cyflogai fwy nag un swydd. Pan fo hyn yn berthnasol, rhaid i'r cyflogwr sicrhau nad yw ei gyflogai yn gweithio mwy na nifer gyfartalog o oriau bob wythnos ar draws y ddwy swydd (neu'r holl swyddi). Os yw cyflogai wedi 'optio allan' o'r terfyn, rhaid i'r cyflogwr gadw cofnod o hyn.

**33.** Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff cymorth, a gaiff eu hariannu drwy lwfansau a ddarperir yn y Penderfyniad, gael eu cyflogi ar delerau ac amodau

---

<sup>4</sup>

<https://busnes.senedd.cymru/documents/s101668/Adroddiad%20ar%20Adolygiad%20or%20Penderfyniad%20ar%20Gyfer%20y%20Chweched%20Senedd.pdf>

<sup>5</sup> The 48-hour average weekly limit: The maximum hours an employee can work - Acas

---

safonol<sup>6</sup>, sy'n darparu ar gyfer amser gweithio. Mae'r contract hefyd yn adlewyrchu absenoldebau arfaethedig a chymeradwy fel gwyliau blynyddol, absenoldeb salwch ac , absenoldeb rhiant.

**34.** Mae nifer o Aelodau wedi dweud eu bod eisoes yn ei gwneud yn ofynnol cofnodi amser gwaith ac absenoldebau staff. Lle nad yw hyn yn digwydd fel mater o drefn, mae'r cyngor y gofynnodd rhai Aelodau amdano yn y Bumed Senedd yn dangos eu profiad bod diffyg cofnodion priodol yn arwain at anawsterau wrth reoli materion staffio.

**35.** Mae rhai Aelodau wedi mynegi pryderon bod amgylchiadau a phwysau unigryw eu rôl yn ei gwneud yn anodd mabwysiadu trefniadau safonol o ran sut mae eu staff yn cyflawni'r gwaith y cânt eu talu ar ei gyfer. Fodd bynnag, dylid nodi mai Aelodau sy'n gyfrifol yn bersonol am eu holl dreuliau, gan gynnwys cyflogau staff. Mae dangos oriau gweithio staff, ynghyd â'r amseroedd nad oeddent yn gweithio, nid yn unig yn arfer ddoeth, ond yn ofyniad cyfreithiol mewn rhai amgylchiadau (fel yr esboniwyd uchod). Mae gwneud hynny'n diogelu'r Aelodau, a'u staff, yn enwedig lle nad yw oriau gwaith 'arferol' a threfniadau staffio yn berthnasol.

**36.** Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cynnig gwneud newidiadau sy'n ymwneud â chyflogi staff cymorth a fydd yn cynghori'r Aelodau i sicrhau bod digon o eglurder ynghylch yr oriau gwaith penodol y mae eu staff yn weithio yn ystod yr amser y maent ar gcontract i wneud gwaith a gaiff ei dalu gydag adnoddau'r Comisiwn. Y dull arall fyddai cyflwyno gofyniad parhaol i Aelodau gadw cofnodion cywir o'r oriau a weithir gan bob aelod o staff a gyflogir ganddynt, a ariennir trwy adnoddau'r Comisiwn, ac y dylai'r cofnodion hyn ystyried oriau gwaith a hefyd absenoldebau wedi'u cynllunio a'u cymeradwyo megis gwyliau blynyddol, absenoldeb salwch, cyfnod mamolaeth a mathau o wyliau.

**Cynnig 1.** Cynigir y dylid diwygio'r Rheol 3 bresennol i ddefnyddio geiriad mwy eglur drwy ddweud "Rhaid i Aelodau sicrhau bod yr holl staff a gyflogir ganddynt ond yn ymgymryd â gwaith sy'n gysylltiedig â dyletswyddau'r Aelod yn ystod yr amser y maent wedi'u contractio i ymgymryd â gwaith y telir amdano gydag adnoddau'r Comisiwn."

**Cynnig 2.** Cynigir y dylid ategu'r canllawiau i Reol 3 i gynghori bod yn rhaid i Aelodau ystyried pa brosesau y mae angen iddynt eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod eu staff yn ymgymryd â gwaith sy'n gysylltiedig â dyletswyddau'r Aelod (h.y. at y diben y gwneir y ddarpariaeth ar ei gyfer) yn unig yn ystod eu hamser gwaith. Gallai'r broses honno gynnwys cadw cofnodion cywir o oriau a weithiwyd gan bob aelod o staff, ond ni fydd yn ofynnol.

---

<sup>6</sup> Y Penderfyniad - adran 7.9



## 5. Cynigion ar ddiffinio gweithgaredd gwleidyddol plaid at ddiben defnyddio adnoddau

---

### Cefndir

**37.** Mae'r Senedd yn darparu adnoddau at ddefnydd Aelodau yn eu rôl fel cynrychiolwyr etholedig sy'n gwasanaethu eu holl etholwyr yn gyfartal. Yn unol â hynny, mae'n egwyddor sylfaenol a dderbynnir yn gyffredinol na ddylai adnoddau o'r fath gael eu defnyddio at ddibenion pleidiau gwleidyddol.

**38.** Mae'r Rheolau'n ymwneud â defnyddio adnoddau'r Senedd, gan gynnwys hawliadau am adnoddau y gall Aelodau eu hawlio o dan y Penderfyniad. Nid ydynt yn berthnasol o dan amgylchiadau eraill.

**39.** Efen sy'n sail i gymhwyso'r egwyddor hon a nifer o'r materion ymarferol penodol a drafodir yma yw'r angen am ddealltwriaeth ar y cyd o'r hyn a olygir wrth weithgaredd gwleidyddol plaid er mwyn rheoleiddio'r defnydd o adnoddau a roddir i Aelodau o'r pwrs cyhoeddus drwy gyllideb y Comisiwn.

**40.** Mae'r Rheolau presennol yn diffinio gweithgaredd gwleidyddol plaid fel a ganlyn:

“unrhyw beth allai ymddangos i sylwedydd teg a diduedd fel bod yn weithgaredd gwleidyddol, ond heb gynnwys trafodaethau ac ystyriaethau'r Aelodau a'u staff mewn perthynas â'r ymateb gwleidyddol i fusnes sydd gerbron y Senedd gan gynnwys busnes y grwpiau gwleidyddol yn y Senedd, neu'r defnydd o logos neu frandio yn unol â'r Rheolau hyn”.

**41.** Ystyr “dyletswyddau Aelod” yw gweithgaredd mewn perthynas â busnes y Senedd a busnes etholaethol neu ranbarthol y bydd yr Aelod yn ymgymryd ag ef.

### Cefndir defnydd arian cyhoeddus gan bleidiau

**42.** Mae cyfyngiadau ar y symiau y gellir eu gwario ar weithgaredd ymgyrchu gwleidyddol wedi bod ar waith ers o leiaf Ddeddf Atal Arferion Llygredig ac Anghyfreithlon 1883. Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i dreuliau ymgeiswyr gael eu cyhoeddi, a gellid eu mesur yn erbyn terfyn o ran faint y gellid ei wario ar ymgyrchoedd gwleidyddol. Roedd yn gosod rheolau ar gyfer ymddygiad ymgeiswyr seneddol, gan gynnwys terfyn llym ar dreuliau.

- 43.** Cyflwynwyd 'Arian Short' (*Short Money* yn Saesneg, wedi'i enwi ar ôl y gweinidog a gynigiodd y syniad) ar gyfer Tŷ'r Cyffredin ym 1974, ac roedd ar gael i gynorthwyo'r gwrthbleidiau i gyflawni eu swyddogaethau yn Senedd y DU, gan gynnwys craffu ar y llywodraeth, cyllid ar gyfer costau teithio'r gwrthbleidiau a threuliau a chyllid sy'n gysylltiedig â chostau gweithredu swyddfa Arweinydd yr Wrthblaid. Nid yw'n cynnwys ymgyrchu gwleidyddol a gweithgareddau pleidiol tebyg, codi arian gwleidyddol, ymgyrchoedd aelodaeth na busnes personol neu breifat o unrhyw fath.
- 44.** Pan sefydlwyd y Senedd yn wreiddiol fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cafwyd problemau o ran ei strwythur. Nid oedd yn gwahanu'r 'Weithrediaeth' (y Llywodraeth) oddi wrth y 'Ddeddfwrfa'.
- 45.** O ganlyniad, darparwyd yr holl gyngor a chefnogaeth i Aelodau wrth iddynt gyflawni eu rolau ar y pwyllgorau ac yn y Cyfarfod Llawn o fewn y gwasanaeth sifil, a oedd â'r prif ffocws o wasanaethu Ysgrifenyddion y Cynulliad (sy'n cyfateb yn fras i weinidogion) a oedd yn arfer y pwerau yr oedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn eu harfer gynt. Arweiniodd hyn at ddryswch ac anawsterau o ran cyfrinachedd a thryloywder, ac o ran digonolrwydd a blaenoriaethu anghenion Aelodau'r Cynulliad nad oeddent yn rhan o'r 'Weithrediaeth'.
- 46.** Gwnaeth Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ailddiffinio ac ail-lunio'r Cynulliad, gan wahanu'r 'Weithrediaeth' (a gafodd yr enw 'Llywodraeth Cynulliad Cymru' i ddechrau) a chrëwyd Comisiwn y Cynulliad i ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i gefnogi Aelodau'r Cynulliad. Bryd hynny, roedd Aelod yn cael hawlio Lwfans Cyflogau Staff i dalu am gostau cyflogi staff mewn swydd weinyddol, glerigol neu ysgrifenyddol neu i ymgymryd ag ymchwil lle roedd y costau hynny'n codi yn gyfan gwbl, yn unig, ac o reidrwydd mewn cysylltiad â'i ddyletswyddau fel Aelod o'r Cynulliad.
- 47.** Ym mis Gorffennaf 2007, cytunodd Comisiwn y Cynulliad i gynyddu cefnogaeth uniongyrchol Aelodau'r Cynulliad. Y rhesymeg dros y newid oedd rhoi cymorth penodol ar gyfer dyletswyddau deddfwriaethol a chraffu ychwanegol Aelodau o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
- 48.** O'r Trydydd Cynulliad, a etholwyd yn 2007, roedd grwpiau pleidiau o dri neu fwy o Aelodau hefyd yn gallu cyflogi staff yn ganolog. Cafodd y rheolau sy'n ymwneud â'r lwfansau a oedd ar gael i gynorthwyo grwpiau o dri neu fwy o Aelodau'r Cynulliad eu hawdurdodi gan

adran 18 o Benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) (Cyflogau, Lwfansau etc.) 2006 ("Penderfyniad 2006").

**49.** Diben y lwfans oedd cynorthwyo grwpiau i gyflawni eu gwaith yn y Cynulliad. Dim ond mewn perthynas â chostau a oedd yn codi yn gyfan gwbl, yn unig ac o reidrwydd at ddibenion cyflawni eu cyfrifoldebau yr oedd y lwfans yn daladwy.

**50.** Roedd y staff hyn yn ychwanegol at y staff y gallai pob Aelod eu cyflogi'n unigol, i'w cefnogi yn eu dyletswyddau fel Aelod. Roedd nifer y staff yn seiliedig ar nifer yr Aelodau yng ngrŵp y blaid, ac a oedd unrhyw Aelod o grŵp y blaid yn cael ei gynrychioli yn Llywodraeth Cymru ai peidio. Roedd hyn yn mynd i'r afael â'r mater hirsefydlog o ddarparu adnoddau i Aelodau ar y 'meinciau cefn'.

**51.** Y datblygiad nesaf oedd pasio Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ("y Mesur") a sefydlodd gorff annibynnol statudol (y Bwrdd Taliadau Annibynnol) i bennu lefelau cyflog yr Aelodau ac i fonitro ac adolygu cefnogaeth ariannol arall sydd ar gael i Aelodau, gan gynnwys lwfansau ar gyfer teithio, pensiynau, costau swyddfa a chymorth staff. Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol hefyd yn gyfrifol am benderfynu ar y lwfansau i gefnogi grwpiau, yn bennaf i ddarparu cymorth staffio.

**52.** Cyflwynodd y Bwrdd Taliadau Annibynnol adroddiad am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2011<sup>7</sup> gan amlinellu eu barn am ddiben strategol y Cynulliad, a swyddogaethau craidd yr Aelodau. Canfu'r Bwrdd fod y Cynulliad a'i Aelodau yn cydnabod tair prif swyddogaeth strategol:

- craffu ar bolisiau a chyllid Llywodraeth Cymru;
- craffu a deddfu; a
- chynrychioli etholwyr.

**53.** Cydnabu'r Bwrdd fod nifer y staff a ddyrennir i grwpiau sy'n rhan o Lywodraeth Cymru yn llai na'r nifer a ddyrennir i grwpiau'r gwrthbleidiau, ond bod gwaith datblygu polisiau yn cael ei wneud, yn rhannol o leiaf, i bleidiau Llywodraeth Cymru gan y Gwasanaeth Sifil. Cydnabu hefyd nad yw'r Senedd fel deddfwrfa yn seiliedig ar fodel gwrthwynebol fel yn San Steffan. Yn hytrach, yr arfer yn y Senedd yw cydnabod rôl arweinwyr yr holl wrthbleidiau o ran dwyn y Llywodraeth i gyfrif. Esboniodd y Bwrdd fod swyddfeydd grŵp wedi'u strwythuro yn unol â blaenoriaethau ac anghenion penodol grwpiau unigol. Maent yn gweithio i gydlynu cymorth a chyfeiriad strategol

---

<sup>7</sup> <https://bwrddtaliadau.cymru/media/2kejpbw1/gen-ld8488-e-cymraeg.pdf>



ar gyfer grwpiau'r pleidiau yn y Senedd, ac i gynorthwyo staff unigol yr Aelodau i ddarparu cymorth i lefarwyr y pleidiau ar draws yr ystod lawn o bortffolios Gweinidogol.

**54.** Mae'r Comisiwn Etholiadol yn dyrannu Grantiau Datblygu Polisi i bleidiau gwleidyddol. Mae'r grant yn rhoi arian i bleidiau gwleidyddol ddatblygu polisiau i'w cynnwys yn eu maniffestos etholiadol, ac mae'n nodi'n glir bod hyn yn cynnwys rhai ar gyfer etholiadau i'r Senedd. Ni ddylid defnyddio arian grant ar gyfer gwaith gweinyddu arferol pleidiau, ymgyrchu, neu gynnal polau piniwn, ond gellir ei ddefnyddio ar gyfer polau piniwn sy'n ymwneud yn benodol â datblygu polisiau i'w cynnwys mewn maniffestos.

## Ystyriaethau

**55.** Barn y Bwrdd Taliadau Annibynnol yw na ddylid defnyddio Adnoddau'r Senedd i ariannu gweithgarwch/cynnwys deunydd a fyddai'n cael ei ystyried yn waith gwleidyddol plaid. Mewn llythyr at y Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â rhoi mwy o eglurder i'r Aelodau ynghylch yr hyn sy'n cael ei ystyried yn ddefnydd derbynol o adnoddau a ddarparir gan y Comisiwn, nododd y Bwrdd ei fod wedi:

"...deliberately sought, through some of the changes it has made to the Determination for the Sixth Senedd, to remove any potential for public funds to be used for party political purposes. Whilst acknowledging that it is not possible to eliminate party politics from Senedd business, the Board's guiding principle is to ensure that only Senedd business is funded by the taxpayer and not party business."

**56.** Mae adroddiadau a gyhoeddwyd ynghylch achosion o gwynion lle roedd y diffiniad blaenorol o blaid wleidyddol wedi achosi anawsterau i'w gweld ar wefan y Comisiynydd<sup>8</sup>. Ymgynghorwyd, felly, â'r Comisiynydd Safonau ynglŷn â diwygio'r diffiniad o 'weithgaredd gwleidyddol plaid', ac mae'n fodlon ar y diffiniad presennol a nodir yn y Rheolau.

**57.** O ran defnyddio adnoddau'r Senedd, mae rhai Aelodau wedi gwneud sylwadau am y ffordd y mae eu gweithgareddau (a'r cyfathrebu amdanynt) yn cael eu cyfyngu gan y Rheolau o ran sut maent yn diffinio gweithgaredd gwleidyddol plaid.

---

<sup>8</sup> [Adroddiadau'r Comisiynydd | Gwefan y Comisiynydd Safonau \(comisiynyddsafonau.org\)](https://www.comisiynyddsafonau.org/)

- 58.** Nid yw'n ofynnol i Aelod o'r Senedd fod yn aelod o blaid wleidyddol neu grŵp gwleidyddol yn y Senedd, ac mae nifer o enghreifftiau hefyd o Aelodau yn newid eu hymlyniad gwleidyddol personol yn ystod un o sesiynau'r Senedd.
- 59.** O fewn y rheolau presennol, gall Aelodau roi gwybod i etholwyr am sut maent yn cyflawni eu rôl fel Aelod. Gall hyn gynnwys cyfeiriad at eu hymlyniad wrth blaid, ond rhaid i Aelodau drin yr holl etholwyr yn gyfartal, ni waeth beth yw eu barn wleidyddol neu eu teyrngarwch neu eu barn wleidyddol neu eu teyrngarwch honedig, wrth ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn i ymgysylltu neu ohebu â hwy.
- 60.** Er enghraifft, wrth gyfathrebu â'i etholwyr, byddai Aelod yn cael cyfeirio at rôl portffolio lle mai'r Aelod yw llefarydd y grŵp ar fater penodol, er enghraifft drwy gyfeirio at ei gyfraniad at fusnes y Senedd a'i gysylltu â'r meysydd y cafodd ei ethol i'w cynrychioli. Ni fyddai Aelod yn cael defnyddio adnoddau at ddibenion y tu hwnt i'r hyn y darperir ar ei gyfer yn y Penderfyniad. Mae'r arian a ddarperir i grwpiau'r pleidiau yn galluogi cymorth i lefarwyr ar draws yr ystod lawn o bortffolios Gweinidogol. Gwneir hyn drwy staff grwpiau yn bennaf, ond gellir defnyddio'r balans sydd gan y grŵp yn weddill i ddiwallu anghenion eraill wrth ymgymryd â'u gwaith yn y Senedd e.e. llogi cyfleusterau neu ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu angenrheidiol.
- 61.** Mae "busnes sydd gerbron y Senedd" yn cynnwys yr holl weithgareddau a ganiateir o dan y Rheolau Sefydlog, megis: cwestiynau llafar, dadleuon, datganiadau, pasio Biliau a chraffu arnynt, gwaith craffu gan bwyllgorau a gweithgareddau fel herio a dwyn Gweinidogion i gyfrif. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu cyflawni yn y modd y mae pob grŵp gwleidyddol yn teimlo ei fod yn briodol, a hynny o fewn rheolau'r trafodion ac ati, gan gynnwys drwy lefarwyr penodedig.
- 62.** Rhaid i'r defnydd o adnoddau'r Senedd ymwneud â dyletswyddau seneddol Aelod, a bod yn briodol ar gyfer diben y ddarpariaeth. Er enghraifft, gall staff grwpiau'r pleidiau weithio i Aelodau'r grŵp i ysgrifennu araith i'w llefarydd grŵp ei thraddodi fel rhan o drafodion y Senedd. Ni ddylai cyfathrebu gynnwys unrhyw gyfeiriad at rôl mewn plaid yn hytrach nag yn y Senedd.
- 63.** I gymharu, mae Senedd yr Alban yn darparu na ellir ad-dalu treuliau mewn perthynas â gweithgareddau Aelod lle maent yn ymwneud â rôl Aelod fel llefarydd y blaid<sup>9</sup> ac yn nodi'r darpariaethau sydd ar gael i gefnogi Aelodau i gyflawni eu dyletswyddau seneddol. Maent yn

---

<sup>9</sup> [Reimbursement of Members' Expenses Scheme \(parliament.scot\)](http://parliament.scot) (tudalen 31)

diffinio 'dyletswyddau seneddol' fel unrhyw dasg neu swyddogaeth y gellid disgwyl yn rhesymol i Aelod ei chyflawni yn rhinwedd ei rôl fel Aelod, ond nid yw hyn yn cynnwys<sup>10</sup> gweithgareddau sy'n ymwneud â rôl yr Aelod hwnnw fel llefarydd neu gynrychiolydd plaid.

**64.** O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, mae rheolau ar wariant a chodi arian y mae'n rhaid i bleidiau gwleidyddol eu dilyn yn y cyfnod cyn etholiadau.

**65.** Gwariant ymgyrchu yw'r hyn y mae'r plaid yn ei wario ar weithgareddau penodol i hyrwyddo ei hun, neu feirniadu pleidiau eraill, yn ystod y cyfnod rheoleiddiedig. Nododd y Comisiwn Etholiadol yn eu canllawiau<sup>11</sup> fod gwariant ymgyrchu'n cynnwys eitemau neu wasanaethau a brynir cyn i'r cyfnod rheoleiddiedig ddechrau, ond a ddefnyddir yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae gwariant ymgyrchu yn cynnwys, er enghraifft, y maniffesto a dogfennau eraill sy'n nodi polisiau'r plaid, a chynadleddau'r plaid i'r wasg neu drafodion eraill â'r cyfryngau.

**66.** Mae hyn yn dangos i aelodau grwpiau'r pleidiau pa mor bwysig yw gwahaniaethu rhwng gweithgareddau gwleidyddol plaid, gan gynnwys y rhai y gellid eu hystyried yn ddiweddarach yn wariant ymgyrchu, a gweithgareddau i gyflawni dyletswyddau seneddol. Gallai defnydd amhriodol o adnoddau a ddarperir gan y pwrs cyhoeddus drwy Gomisiwn y Senedd, na ddylid eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau/ymgyrchu gwleidyddol plaid, fod yn drosedd etholiadol.

**67.** Cyfrifoldeb Aelodau yw peidio â rhoi eu hunain mewn sefyllfa a all beri pryder i'r Comisiwn Etholiadol, neu sefyllfa lle mae posibilrwydd o dorri'r gyfraith. Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cael trefn effeithiol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a phriodoldeb o ran gwariant ac i roi sicrwydd, a sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd ynghylch y defnydd o adnoddau cyhoeddus.

**68.** Mae'r diffiniad presennol o weithgaredd gwleidyddol plaid yn cydnabod natur wleidyddol ymateb i fusnes gerbron y Senedd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'n hepgor unrhyw gyfeiriad at ymgyrchu, y cyfeirir ato o fewn Rheolau penodol, neu at geisio sicrhau canlyniad penodol mewn refferendwm. Bwriedir egluro'r diffiniad drwy gynnwys cyfeiriad at y materion hyn.

**69.** Mae'r swyddog Cyfrifyddu yn cynnig diwygio geiriad y diffiniad ar gyfer gweithgaredd gwleidyddol plaid er mwyn sicrhau bod y darpariaethau presennol yn nodi'n glir na ddylid defnyddio adnoddau at y dibenion hyn.

---

<sup>10</sup>

<sup>11</sup> [Canllawiau i bleidiau gwleidyddol ar gyfer etholiad Senedd Cymru 2021 \(electoralcommission.org.uk\)](http://canllawiau.i.bleidiau.gwleidyddol.ar.gyfer.etholiad.senedd.cymru.2021.(electoralcommission.org.uk))

---

**Cynnig 3.** Cynigir y dylid cadw'r diffiniad presennol o 'weithgaredd gwleidyddol plaid', ond y dylid ychwanegu eglurhad i gynnwys cyfeiriad at ymgyrchu yn gyffredinol ac mewn refferenda. Felly byddai'r rheol yn darllen fel a ganlyn:

Ystyr "gwleidyddol plaid" – yw unrhyw beth allai ymddangos i sylwedydd teg a diduedd fel bod yn weithgaredd gwleidyddol, **neu geisio sicrhau canlyniad penodol mewnetholiad neu refferendwm (boed fel aelod o blaid wleidyddol gofrestrdig neu beidio)**, ond heb gynnwys trafodaethau ac ystyriaethau'r Aelodau a'u staff mewn perthynas â'r ymateb gwleidyddol i fusnes sydd gerbron y Senedd gan gynnwys busnes y grwpiau gwleidyddol yn y Senedd, [neu'r defnydd o logos neu frandio yn unol â'r Rheolau hyn]<sup>12</sup>.

**Cynnig 4:** Mewn perthynas â chanllawiau Rheol 1, ynghylch atebolrwydd personol Aelodau, dylid ei gwneud yn amlwg bod yn rhaid i Aelodau gofio, fel egwyddor gyffredinol, na ddylid defnyddio adnoddau'r Senedd ar gyfer gweithgaredd gwleidyddol plaid..

---

<sup>12</sup> Bydd y geiriau mewn cromfachau sgwâr yn desturn ystyriaeth bellach yng ngoleuni'r ymatebion i'r cynigion yn 7 isod.

---

## 6. Cynigion ar ddiogelu data

---

### Cefndir

**70.** Un o'r rolau allweddol a gyflawnir yn aml fel Aelod o'r Senedd yw codi materion ar ran etholwyr. Er mwyn gwneud hynny, mae Aelodau'n casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud ag etholwyr. O bryd i'w gilydd, efallai y byddant hefyd yn cysylltu â'u hetholwyr i ofyn iddynt, er enghraifft, gwblhau arolygon er mwyn casglu gwybodaeth a safbwyntiau ar faterion sy'n berthnasol i'w rôl fel Aelod o'r Senedd.

**71.** Mae cyfraith diogelu data yn gosod cyfrifoldebau ar bob Aelod, fel Rheolydd Data, pan fyddant yn ymdrin â data personol pobl eraill.

**72.** Mae'r Rheolau'n gyson â'r Penderfyniad ac yn ei gwneud yn ofynnol i "Aelodau gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â diogelu data a gwybodaeth wrth ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn."

**73.** Mae'n ofynnol i Aelodau nodi gwybodaeth am breifatrwydd, fel arfer ar ffurf hysbysiad preifatrwydd, sy'n nodi sut a pham y defnyddir data personol, yn ogystal â gwybodaeth arall sy'n ofynnol yn ôl cyfraith diogelu data. Rhaid i'r wybodaeth hon fod yn glir ac yn hygyrch i wrthrychau'r data. Cyfrifoldeb yr Aelod yw sicrhau bod yr hysbysiad yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data.

**74.** Gall y Comisiwn roi arweiniad a hyfforddiant i Aelodau ar gydymffurfiaeth gyffredinol â chyfraith diogelu data. Mae hwn ar gael ar y fewnwyd, yn ogystal â thrwy sesiynau hyfforddi a gynigiwyd ar ddechrau'r Chweched Senedd: <https://cynulliad.sharepoint.com/sites/mem-pst/SitePages/GDPR.asp>. Darparwyd templed hysbysiad preifatrwydd newydd ar gyfer etholwyr yn ddiweddar.

### Ystyriaethau

**75.** Mae cyfrifoldebau cyfreithiol Aelodau fel rheolwyr data yn bodoli ar wahân i ofynion eraill sy'n ymwneud â'r ffordd y maent yn cael mynediad at adnoddau cyhoeddus.

**76.** Weithiau mae angen i Aelodau rannu gwybodaeth bersonol unigolyn pan fo'n angenrheidiol wrth geisio cymorth gyda gwaith achos neu i gael gwybodaeth sy'n berthnasol i achos.

- 77.** Mae IPSA yn ei gwneud yn glir yn eu canllawiau na ddylai Aelodau Seneddol rannu data a gasglwyd drwy arolygon seneddol neu waith seneddol arall gyda phlaid wleidyddol<sup>13</sup>.
- 78.** Mae'r egwyddorion sy'n sail i'r Penderfyniad yn atal Aelodau rhag rhannu unrhyw wybodaeth bersonol y mae unigolyn wedi'i rhannu mewn perthynas â gweithgareddau ymgysylltu a ariennir gan Gomisiwn y Senedd at ddibenion plaid wleidyddol neu ymgyrchu.
- 79.** Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng ngoleuni'r ddirwy ddiweddar a roddwyd i blaid wleidyddol am anfon negeseuon e-bost marchnata at unigolion heb ganiatâd penodol i wneud hynny. Dylid ei gwneud yn glir i'r rhai sy'n rhannu data ag Aelodau o'r Senedd, ar yr adeg y cesglir y data, sut y cânt eu defnyddio. Rhaid i'r ffyrdd hynny o ddefnyddio'r data barchu (ymhlith pethau eraill) y gyfraith, y Penderfyniad a'r Rheolau.
- 80.** Mae cyngor gan Gymorth Busnes i'r Aelodau ynglŷn â hysbysiadau preifatrwydd yn ymwneud ag a ellir adennill y costau o dan y Penderfyniad ai peidio. Nid yw'n gyngor cyfreithiol ac nid yw'n gyfystyr ag asesiad o a yw'r Aelod yn cydymffurfio â'r gyfraith ai peidio.
- 81.** Cyngorir Aelodau, pan mae defnyddio adnoddau'n ymwneud â chyhoeddiadau neu gynnwys sy'n cynnwys data personol (gan gynnwys testun, ffilm, neu ddelweddau), rhaid i'r Aelod sicrhau bod y data wedi'u casglu a'u defnyddio yn unol â'r gyfraith.
- 82.** Rhaid i Aelodau sicrhau bod hysbysiadau preifatrwydd yn adlewyrchu hyn yn gywir. Rhaid i Aelodau sicrhau nad yw data a gesglir fel rhan o'u gwaith ymgysylltu a ariennir gan y Comisiwn (gan gynnwys arolygon - boed yn rhai digidol neu ffisegol) yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw weithgaredd gwleidyddol plaid neu eu rhannu fel arall gyda'u pleidiau gwleidyddol.
- 83.** Cyngorir yr Aelodau i fabwysiadu'r geiriad hwn (neu eiriad tebyg) wrth gyfathrebu ag etholwyr ynglŷn ag arolygon ac ati: 'Diben y data personol a ddarperir mewn ymateb i'r [arolwg / cyhoeddiad] hwn yw llywio fy ngwaith seneddol ac ni chaiff ei rannu â thrydydd partion. Bydd unrhyw gyfeiriad at wybodaeth a ddarperir yn eich ymateb yn cael ei drin yn ddienw.'
- 84.** Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cynnig newidiadau sy'n ymwneud â'r angen am hysbysiadau preifatrwydd. Bwriedir i hyn roi mwy o sicrwydd bod y defnydd o adnoddau'r Senedd yn cydymffurfio â gofynion diogelu data.

---

<sup>13</sup> Rules & eligibility | IPSA (ipsaonline.org.uk)

**Cynnig 5** Cynigir cyflwyno gofyniad i ddefnyddio datganiad clir a syml pan fydd unrhyw weithgaredd cyfathrebu neu ymgysylltu a ariennir gan y Comisiwn yn arwain at gasglu data personol, er mwyn ei gwneud yn glir na fydd y data yn cael eu rhannu, ac eithrio achosion lle mae hynny'n angenrheidiol i gefnogi gwaith achos, ac y bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin yn ddienw.

## 7. Cynigion ar gyfathrebu ac ymgysylltu ag etholwyr gan ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn

---

### Cefndir

**85.** Mae'r darpariaethau ym Mhennod 6 o'r Penderfyniad yn rhoi'r hawl i Aelodau wneud cais am ad-daliad ar gyfer unrhyw gostau rhesymol sy'n ymwneud â rhedeg swyddfa etholaeth a rhanbarthol a chysylltu ag etholwyr. Yr enw a roddir ar hyn yw'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr. Mae'r Penderfyniad yn nodi bod yn "Rhaid i unrhyw gostau a hawli'r o'r Gronfa hon ystyried yr egwyddor ar weithgarwch gwleidyddol plaid a amlinellir ym Mhennod 1. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylid gofyn i'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau am gyngor ar wneud hawliadau o'r gronfa hon." Mae rhai darpariaethau perthnasol hefyd ym Mhennod 7 (y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu) o'r Penderfyniad. Mae hyn yn wahanol i'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer y grwpiau, sy'n ymwneud ag ymgymryd â'u gwaith yn y Senedd.

**86.** Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi symud i ffwrdd o gynnwys rhestr ddangosol o eitemau/gweithgareddau y gellir gwneud cais amdanynt o dan y lwfans hwn (fel yr amlinellir yn adran 6.2 o'r Penderfyniad) gan nad oedd y rhestr yn adlewyrchu'r defnydd amrywiol o'r lwfans bellach. Yn hytrach, gall Aelodau wneud hawliad yn erbyn y lwfans am gostau rhesymol sy'n gysylltiedig â chynnal swyddfa ac ymgysylltu â'u hetholwyr, o fewn paramedrau'r Penderfyniad. Mae Cymorth Busnes i'r Aelodau yn asesu hawliadau gyda'r nod o sicrhau bod penderfyniadau'n gyson â'r Penderfyniad, rheolau'r Swyddog Cyfrifyddu, canllawiau ychwanegol gan y Bwrdd Taliadau neu'r Swyddog Cyfrifyddu, a chynsail.

**87.** Mae nifer o ddarpariaethau'r Rheolau yn berthnasol i weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu, yn gyffredinol ac mewn perthynas â gweithgareddau penodol.

**88.** Mae Rheol 7 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau drin pob etholwr yn gyfartal wrth ymgysylltu neu ohebu â hwy gan ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn, ni waeth beth yw eu barn wleidyddol neu eu teyrngarwch neu eu barn wleidyddol neu eu teyrngarwch honedig.

**89.** Mae Rheol 8 yn nodi pan fydd Aelodau'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu ag etholwyr gan ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn:

- rhaid i hynny beidio â bod yn weithgaredd gwleidyddol plaid,



- rhaid iddo beidio â chael ei wneud yn y fath fodd fel y byddai sylwebydd diduedd a theg yn cael yr argraff ei fod yn ymgyrchu dros ganlyniad penodol mewn etholiad neu refferendwm,
- rhaid cadw at y Canllawiau ar gymhwyso'r Rheol hon ar ddefnyddio symbolau, logos neu fath arall o frandio sy'n ymwneud â phlaid, a
- rhaid datgan yn glir ei fod yn cael ei ariannu gan Gomisiwn y Senedd o arian cyhoeddus.

**90.** Fel y nodir uchod, mae'n amod hirsefydlog o gyllid seneddol nad yw'r cymorth sydd ar gael i Aelodau yn cael ei ddarparu i'w galluogi i ymgymryd â gweithgaredd gwleidyddol plaid. Er enghraifft, rhaid i Aelodau beidio â noddi na threfnu digwyddiadau ar ystâd y Senedd sy'n cynnwys gweithgareddau neu gyfathrebu personol, busnes neu fasnachol neu sy'n gyfystyr â gweithgaredd gwleidyddol plaid, gan gynnwys defnyddio logos neu ddulliau brandio plaid, neu ymgyrchu dros ganlyniad penodol mewn etholiad neu refferendwm.

## Ystyriaethau

**91.** Mae gan yr Aelodau hawl i wneud cais am ad-daliad ar gyfer unrhyw gostau rhesymol sy'n ymwneud â rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr. Mae'r Rheolau'n gymwys pan ddefnyddir adnoddau'r Senedd. Nid ydynt yn berthnasol o dan amgylchiadau eraill. Fodd bynnag, ni ddylai eitemau/deunyddiau a gynhyrchir ar gyfer ymgysylltu ag etholwyr gan ddefnyddio adnoddau'r Senedd gael eu hategu gyda deunyddiau ychwanegol na fyddai'n cael eu caniatáu. Er enghraifft, lle defnyddir adnoddau'r Senedd ar gyfer cylchlythyr a fydd yn cael ei bostio, ni cheir defnyddio cynnwys gwleidyddol plaid ar yr amlen, ac ni cheir cynnwys nodweddion ychwanegol ar arwydd neu hysbyseb sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a ganiateir o dan y Rheolau neu'r Penderfyniad.

**92.** Dyma'r sefyllfa ers tro. Fodd bynnag, cynigir diwygio'r ffordd y caiff y gofyniad hwn ei fynegi i'w wneud yn gliriach na ddylai eitemau/deunyddiau a gynhyrchir ar gyfer ymgysylltu ag etholwyr gan ddefnyddio adnoddau'r Senedd gael eu hategu gyda deunyddiau ychwanegol na fyddai'n cael eu caniatáu.

**93.** Caiff Aelodau ddefnyddio adnoddau seneddol at y dibenion a nodir yn y Penderfyniad. Ar gyfer Aelodau unigol, mae hyn yn cynnwys talu costau gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu i hysbysu etholwyr am y ffordd y maent wedi cyflawni eu dyletswyddau fel Aelod yn y Senedd neu'n lleol yn yr etholaeth neu'r rhanbarth lle cawsant eu hethol. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth am waith y Senedd.

**94.** Mae'r diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau yn cwmpasu nifer o agweddau gwahanol ar gyfathrebu ac ymgysylltu, sef defnyddio symbolau, logos neu fath arall o frandio, gwefannau a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n ymwneud â phlaid. Trafodir pob un o'r rhain yn eu tro isod. Bwriedir mynd i'r afael hefyd â'r strwythur anarferol i Reol 8 (c) sy'n gofyn am gadw at y Canllawiau ar gymhwyso'r Rheol hon yn hytrach na dim ond datgan y rheol a thrwy hynny caiff y canllawiau cysylltiedig eu haddasu hefyd. .

### **Cynigion ar ddefnyddio symbolau, logos neu fath arall o frandio sy'n ymwneud â phlaid**

**95.** Caniateir defnydd cynnil o logos plaid mewn deunydd printiedig a ganiateir ar gyfer ymgysylltu ag etholwyr, gan gynnwys deunydd ysgrifennu personol. Nodir hyn yn y canllawiau i Reol 8 bresennol.

**96.** Rhaid i hysbysebion, cynnwys neu ddeunyddiau beidio â rhoi'r argraff eu bod wedi'u hariannu gan blaid wleidyddol ac ni ddylid eu defnyddio yn y fath fodd fel y gallai sylwedydd teg a diduedd gael yr argraff eu bod yn ymgyrchu dros blaid wleidyddol (neu unigolyn)<sup>14</sup>.

**97.** Rhaid i Aelodau beidio â defnyddio unrhyw logo neu frandio plaid mewn perthynas â digwyddiadau a noddir gan Aelodau ar ystâd y Senedd.

**98.** Mae rhai Aelodau wedi mynegi'r farn na allant ymgymryd â'u rôl yn effeithiol heb gwmpasu gwaith plaid, ac yn nodi bod eu hetholwyr yn disgwyl cael gwybod am y blaid maent yn perthyn iddi, er enghraifft, er mwyn ffurfio barn ynghylch sut y gallai'r Aelod eu cynrychioli.

**99.** Yn ei adroddiad blynyddol, nododd y Comisiynydd Safonau <sup>15</sup>fod y cynnydd yn nifer y cwynion a gafodd ynglŷn â defnydd o adnoddau'r Senedd o ganlyniad i achosion honedig o dorri'r Rheolau ar ddefnyddio adnoddau Comisiwn y Senedd mewn perthynas â defnyddio logos a brandio plaid ar ddeunydd a ariennir gan y Senedd. Mynegodd y Comisiynydd bryder bod y Rheolau mewn perthynas â'r materion hyn yn amhendant gan arwain at wahanol ddehongliadau. Roedd yn gefnogol i'r ymdrechion i egluro'r materion hyn.

---

<sup>14</sup> Rheolau Presennol y Swyddog Cyfrifyddu - Rheol 8 a Chanllawiau cysylltiedig

<sup>15</sup> Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Safonau'r Senedd (comisiynyddsafonau.cymru.org)

---

**100.** Wrth ystyried yr hyn sy'n cael ei ystyried yn ddefnydd priodol o adnoddau, mae seneddau eraill yn defnyddio dull mwy cyfyngol.

**101.** Ni fydd IPSA yn talu hawliadau gan Aelodau Seneddol i ariannu unrhyw ddeunyddiau, ac eithrio gwefannau, sy'n cynnwys logo neu arwyddlun gwleidyddol plaid<sup>16</sup>.

**102.** Mae Cynulliad Gogledd Iwerddon yn ei gwneud yn ofynnol i arwydd ar swyddfa Aelod gynnwys logo'r Cynulliad, a gall gynnwys enw neu logo plaid wleidyddol. Fodd bynnag, ni ellir hawlio costau os yw enw neu logo plaid wleidyddol ar yr arwydd yn fwy na logo'r Cynulliad, ac mae cyfanswm maint logo'r Cynulliad (ynghyd ag enw neu logo plaid wleidyddol, os oes un) yn gyfyngedig<sup>17</sup>. Nid yw'n ymddangos bod aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon yn cael lwfansau ar gyfer ymgysylltu, ac eithrio ar gyfer rhoi gwybod am wybodaeth ffeithiol sy'n ymwneud â manylion cyswllt a chymorthfeydd.

**103.** Nid yw Senedd yr Alban yn caniatáu defnyddio logo plaid mewn unrhyw gyhoeddiad a ariennir drwy adnoddau seneddol – fel cylchlythyrau, arwyddion, hysbysebion, gwefannau ac ati. Ni all Aelodau ei ddefnyddio ar eu negeseuon e-bost seneddol ac ati chwaith. Mae hyn wedi'i amlinellu mewn nifer o wahanol ganllawiau a ddarperir i Aelodau Senedd yr Alban.

**104.** Yn unol â'r egwyddor a amlinellir yn y Penderfyniad: "Rhaid peidio â gwneud cais am wariant sy'n ymwneud â gweithgareddau plaid wleidyddol<sup>18</sup>", yn ei ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2020, amlinellodd y Bwrdd Taliadau Annibynnol ei farn bod angen ystyried yn y dyfodol a ddylid defnyddio logos ar ddeunydd cyfathrebu a ariennir yn gyhoeddus er mwyn osgoi'r risg y bydd arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwleidyddol plaid. O ystyried bod y Rheolau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd yn gymwys ar gyfer yr holl adnoddau a ddefnyddir gan Aelodau a'u swyddfeydd, penderfynodd y Bwrdd ddileu rhywfaint o'r canllawiau gorfodol ychwanegol ar gyfer y Chweched Senedd, ac ysgrifennodd at y Swyddog Cyfrifyddu i nodi ei fod am gynnal trafodaeth agored i sicrhau bod unrhyw addasiadau i'r Rheolau yn y dyfodol yn adlewyrchu profiad y Bwrdd wrth weithredu'r Penderfyniad. Y dewis arall yn lle'r dull hwn fyddai i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ei hun nodi'n fwy penodol yr hyn y mae'n teimlo yw'r paramedrau priodol mewn perthynas â'r hyn a ystyrir yn weithgaredd gwleidyddol plaid yng

---

<sup>16</sup> [The Scheme of MPs' Staffing and Business Costs - 2021-22 \(ctfassets.net\)](#)

<sup>17</sup> [Assembly Members \(Salaries and Expenses\) Determination \(Northern Ireland\) 2016 as amended by the Assembly Members \(Salaries and Expenses\) \(Amendment\) Determination \(Northern Ireland\) 2020 \(niassembly.gov.uk\)](#)

<sup>18</sup> [Y Penderfyniad \(senedd.cymru\)](#)

---

nghyd-destun ymgysylltu. Mae'r Rheolau, ar eu ffurf bresennol, yn cydnabod cyd-fodolaeth symbolau, logos a mathau eraill o frandio pleidiau, ac yn gyffredinol yn sôn am ddefnyddio logos neu ddulliau brandio plaid.

**105.** Mae hyn yn adlewyrchu'r ffordd y mae codi ymwybyddiaeth ac ymgyfarwyddo â phlaid yn mynd y tu hwnt i ddefnydd syml o 'logo', mae elfennau gweledol ehangach sy'n gysylltiedig â brandiau pleidiau hefyd yn cyfrannu at y gweithgaredd hwn, yn enwedig symbolau pleidiau, ffontiau unigryw, nodau masnach cofrestredig, ac unrhyw 'ddisgrifiad o blaid' neu arwyddair a gofrestrwyd gyda'r Comisiwn Etholiadol (o dan adran 28A neu 29 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000) ac amrywiadau neu rannau ohonynt.

**106.** Mae defnyddio nodau adnabod, logos a dulliau brandio plaid ar ddeunyddiau cyfathrebu ac ymgysylltu a gynhyrchir gydag adnoddau Comisiwn y Senedd yn bwnc sensitif ac ystyrir y dylai Aelodau allu deall yn union ac yn glir yr hyn a ganiateir.

**107.** Er gwaethaf yr egwyddor gyffredinol a drafodwyd uchod na ddylid defnyddio adnoddau'r Senedd at ddibenion gweithgaredd gwleidyddol plaid, cynigir dau eithriad:

- y gall Aelodau ddatgan eu hymlyniad wrth blaid mewn testun plaen; ac
- y gall Aelodau ddewis y lliwiau y maent yn eu defnyddio.

**108.** Ystyrir y bydd hon yn rheol symlach a chliriach na'r rheol 8(c) bresennol y bydd yn ei disodli. Cydnabyddir bod gwahaniaeth main iawn rhwng defnyddio logo plaid a disgrifio cysylltiad plaid mewn geiriau. Yr egwyddor sy'n cael ei chymhwyso yw ceisio bod yn glir nad yw'r cyllid seneddol sydd ar gael i Aelodau yn cael ei ddarparu i hybu ymwybyddiaeth plaid nac i alluogi gweithgaredd gwleidyddol plaid. Felly, mae'r cynnig hwn wedi'i nodi at ddibenion ymgynghori.

**109.** Ymlyniad wrth blaid - Gall Aelodau ddatgan eu hymlyniad wrth blaid mewn testun plaen. Mae hyn yn golygu testun diaddurn ac sy'n gyson â'r testun y mae'n ymddangos ynddo (ee yr un maint, lliw, ffont ac ati). Bwriedir lliniaru'r risg o'r canfyddiad bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwleidyddol plaid. O ganlyniad, ni fydd cyllid seneddol ar gael yn y dyfodol i ariannu unrhyw ddeunyddiau, boed yn rhai ffisegol neu ddigidol, sy'n defnyddio logos plaid neu arwyddluniau ymgyrchoedd gwleidyddol.

**110.** Byddai hyn yn golygu y gallai arwyddion swyddfa presennol barhau i gynnwys enw neu logo plaid gwleidyddol, hyd nes y caiff arwyddion newydd eu gosod maes o law, a gellir

defnyddio'r stoc presennol o ddeunyddiau ffisegol, ond ar ôl i'r rheolau diwygiedig gael eu rhoi ar waith ni ellid gwneud hawliad newydd am unrhyw beth sy'n cynnwys logo neu arwyddair plaid. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod llawer o arwyddion swyddfa wedi eu gosod eisoes, a bydd y dull arfaethedig yn lleihau gwastraff o ddeunyddiau ffisegol a gynhyrchwyd eisoes, tra'n creu fframwaith clir ar gyfer y tymor hir.

**111.** Bydd y newid arfaethedig i'r rheol hefyd yn atal defnydd yn y dyfodol o unrhyw logo plaid ar ddeunyddiau cyfathrebu fel cylchlythyrau, hysbysebu, gwefannau, arolygon, arwyddion newydd, hysbysiadau cymorthfeydd, adroddiadau blynyddol, cylchlythyrau mewn ymateb i geisiadau am ragor o wybodaeth, taflenni, ymatebion i lofnodwyr deiseb a gyfeiriwyd at Aelod y gwneir cais ar eu cyfer drwy adnoddau'r Comisiwn. Byddai'r un rheol hefyd yn berthnasol i e-byst seneddol, papurau pennawd, a deunyddiau ysgrifennu personol eraill yr Aelodau.

**112.** Bydd y trefniadau hyn yn sicrhau bod y polisi'n cyd-fynd â'r polisi ar gyfer digwyddiadau a noddir gan Aelodau, ac yn alinio'r Senedd yn agosach â'r polisi ar gyfer cynrychiolwyr seneddol eraill yn y DU.

**113.** Bydd defnydd o logo'r Senedd, mewn ffyrdd penodol, yn parhau i gael ei ganiatáu.

**114.** Defnyddio lliw - Ni fyddai'r cynnig hwn yn atal y defnydd o liwiau'r pleidiau mewn gweithgarwch ymgysylltu ag etholwyr. Byddai'r canllawiau sy'n gysylltiedig â'r rheol hon yn cael eu drafftio i atgoffa'r Aelodau y bydd eu defnydd o liw a lluniau mewn deunydd ymgysylltu a graddau'r defnydd hwnnw yn cyfrannu at y ffordd y mae'r deunyddiau hynny'n debygol o gael eu gweld gan sylwedydd teg a diduedd ac y dylid cymryd gofal i osgoi canfyddiad bod y deunyddiau'n cynnwys gwleidyddiaeth plaid. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i Aelodau arfer crebwyll, a dylent fod yn barod i gyfiawnhau eu penderfyniad os cânt eu herio. Y dewis arall fyddai nodi disgwyliadau penodol yn y canllawiau; er enghraifft, byddai streipen neu ymyl yn y lliw (neu liwiau) a ddefnyddir gan y blaid y mae'r Aelod yn gysylltiedig â hi yn dderbyniol ar yr amod ei fod yn cael ei gyflwyno ar gefndir sydd fel arall yn niwtral.

### **Cynigion ar wefannau'r Aelodau**

**115.** Mae'r Penderfyniad yn caniatáu i Aelodau hawlio costau ar gyfer cynnal gwefan i ymgysylltu â'u hetholwyr drwy eu Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr. Nid oes angen i'r fformat a chynnwys cyffredinol gydymffurfio arddull benodol. Mater i bob Aelod yw rheoli a chynnal ei wefan mewn ffordd sydd bob amser yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad yr

Aelodau, y Penderfyniad, Rheolau'r Swyddog Cyfrifyddu, a'r gyfraith fel y mae'n berthnasol i'r gweithgaredd (e.e. diogelu data).

**116.** Pan mae Aelodau'n hawlio, mae Rheol 10 yn ei gwneud yn ofynnol i wefan Aelod gael ei defnyddio mewn cysylltiad â dyletswyddau'r Aelod yn unig ac mae'n ei gwneud yn glir bod y gofyniad hwn yn eithrio cynnwys gwleidyddol plaid. Fodd bynnag, mae'r Rheol ar hyn o bryd yn eithrio'r cynnwys a ganlyn, sy'n rhoi gwybodaeth am yr Aelod er budd ymwelwyr â'r wefan, o'r cyfyngiad ar gynnwys gwleidyddol plaid o dan y Rheol hon:

- Dangos y blaid y mae'r Aelod yn perthyn iddi;
- Dangos logo neu frand plaid yr Aelod;
- Lincs ar y wefan i un neu ragor o wefannau (ar wahân) sydd â chynnwys gwleidyddol plaid. Fodd bynnag, dylai gwefan yr Aelod egluro bod y lincs yn arwain at wefannau nad ydynt yn cael eu cynnal gan yr Aelod ac nad ydynt yn cael eu hariannu gan adnoddau'r Comisiwn.

**117.** Mae'r Rheolau eraill ynghylch ymgysylltu a chyfathrebu hefyd yn gymwys ar gyfer gwefannau.

**118.** Cydnabyddir nad yw gwefannau'n sefydlog a'u bod yn gallu newid yn rheolaidd. Dim ond pan wneir hawliad y bydd staff y Comisiwn yn gwirio gwefan, er mwyn sicrhau mai diben y wefan yw caniatáu i'r Aelod ymgysylltu ag etholwyr a bod cynnwys y dudalen gartref yn cydymffurfio.

**119.** Nid yw gwiriadau'n cael eu gwneud fel mater o drefn ar adegau eraill. Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd Aelod yn gofyn am gyngor penodol gan Gymorth Busnes i'r Aelodau (neu eraill) ynglŷn ag eitem benodol y mae am ei rhoi ar ei wefan.

**120.** Fel arall, mater i bob Aelod yw rheoli a chynnal ei wefan mewn ffordd sydd bob amser yn cydymffurfio â'r gyfraith a'r gofynion eraill a restrir uchod. Fodd bynnag, rhaid i Aelodau gofio bod gan ymwelydd â gwefan Aelod hawl bob amser i gwyno i'r Comisiynydd Safonau ynglŷn ag unrhyw achos o fynd yn groes i'r Rheolau ynghylch cynnwys gwleidyddol plaid (ac eithrio'r wybodaeth gyfyngedig a ganiateir fel y nodir).

**121.** Mae Rheol 8 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyfathrebu ac ymgysylltu nodi'n glir ei fod yn cael ei ariannu gan Gomisiwn y Senedd gydag arian cyhoeddus, er mwyn sicrhau tryloywder ac eglurder i'r cyhoedd sy'n defnyddio'r wefan. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cynnig ailgyflwyno

canllawiau ar hyn ac y dylid nodi'n glir yn y Rheolau bod y gofyniad hwn yn gymwys ar gyfer gwefannau, ac i wneud hynny drwy roi geiriad penodol y mae'n rhaid ei arddangos mewn man amlwg ar wefan a ariennir ag adnoddau'r Comisiwn. Byddai'r gofyniad dan ystyriaeth yn nodi:

*"Mae Comisiwn y Senedd wedi talu costau'r wefan hon o arian cyhoeddus."  
neu unrhyw eiriad arall a bennir gan y Swyddog Cyfrifyddu o bryd i'w gilydd.*

**122.** Rhaid i wefan Aelod a ariennir gan y Comisiwn beidio ag ymgorffori cynnwys o wefannau eraill sy'n rhai gwleidyddol plaid. Rhaid iddo hefyd nodi'n glir bod unrhyw lincs yn mynd at wefannau nad ydynt yn cael eu hariannu o adnoddau'r Comisiwn. Caniateir lincs testun syml ar wefan yr Aelod i un neu fwy o wefannau (ar wahân) sydd â chynnwys gwleidyddol plaid. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cynnig y dylid diwygio ac egluro risgiau cynnwys sydd wedi'i fewnosod a'r mathau o lincs a ganiateir.

**123.** Mae'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn cynnig addasu geiriad Rheol 10 i'w gwneud yn fwy eglur bod yn rhaid i wefan Aelod sy'n cael ei chreu neu ei chynnal gan ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn gael ei defnyddio mewn cysylltiad â dyletswyddau'r Aelod yn unig. Byddai'r cyfeiriad at logos neu frandio yn Rheol 10 hefyd yn cael ei ddileu i adlewyrchu'r safbwynt a nodir yn yr adran ar logos a brandio'r pleidiau uchod.

### **Cynigion ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol**

**124.** Rhaid i weithgaredd Aelod ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'i ddyletswyddau fel Aelod a rhaid iddo beidio â bod yn weithgaredd gwleidyddol plaid<sup>19</sup>.

**125.** Mae'r canllawiau presennol yn nodi na cheir defnyddio adnoddau'r Comisiwn i greu, hysbysebu na hyrwyddo cynnwys sy'n wleidyddiaeth plaid. Mae hyrwyddo gweithgaredd ar y cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft defnyddio Facebook (gan gynnwys "hybu" erthyglau Facebook) neu hysbysebion Twitter, o fewn y Rheol hon dim ond os yw'r erthygl yn uniongyrchol gysylltiedig â dyletswyddau'r Aelod ac nad yw'n weithgaredd gwleidyddol plaid. Rhaid i'r gweithgaredd hyrwyddo gael ei anelu at yr etholaeth neu'r rhanbarth y mae'r Aelod yn ei gynrychioli. Mae hyn hefyd yn gyson â gofyniad Rheol Sefydlog 1.10 (iv) a (v).

---

<sup>19</sup> Rheolau Presennol Rhif 11

**126.** Wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, mae Aelodau wedi'u rhwymo gan y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd a'r ddarpariaeth bellach yn y Rheolau. Pan fydd Aelodau'n defnyddio offer TGCh (neu wasanaethau TGCh) a ddarperir gan y Comisiwn neu'n gwneud hynny drwy ddyfais sydd wedi'i chysylltu â system TGCh y Senedd, maent hefyd wedi'u rhwymo gan yr Amodau Diogelwch a Defnyddio TGCh, ac mae derbyn y rhain yn un o'r amodau ar gyfer darparu offer a chyfleusterau TGCh i Aelodau.

**127.** Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn faes sy'n esblygu'n barhaus ac yn creu nifer o risgiau a heriau i Aelodau. Mae aelodau'n agored i wynebu 'trolio' neu gam-drin neu aflonyddu ar-lein.

**128.** Gwnaed cwynion hefyd am weithgarwch rhai Aelodau ar y cyfryngau cymdeithasol. Cyfeirir yn benodol at hyn yn adroddiad blynyddol y Comisiynydd Safonau 2020-21<sup>20</sup> "Ymddygiad ar y cyfryngau cymdeithasol oedd y rheswm mwyaf cyffredin o hyd ar gyfer y cwynion a gafwyd" a chanfuwyd bod dwy gŵyn ynglŷn â defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol wedi torri'r Cod yn y Bumed Senedd.

**129.** Er gwaethaf y risgiau a'r heriau, mae'r cyfryngau cymdeithasol yn parhau i fod yn ffordd gost-effeithiol o gyfathrebu, yn enwedig o ystyried y gallu i dargedu cynnwys wedi'i hybu at grwpiau penodol.

**130.** Gellir defnyddio adnoddau'r Comisiwn i greu, hysbysebu neu hyrwyddo cynnwys nad yw'n wleidyddiaeth plaid, sy'n ymwneud â dyletswyddau Aelod ac yn hysbysu etholwyr ynghylch sut y caiff y dyletswyddau hyn eu cyflawni. Mae hyrwyddo gweithgaredd ar y cyfryngau cymdeithasol yn dod o fewn y Rheol hon os yw'r gweithgaredd yn uniongyrchol gysylltiedig â dyletswyddau Aelod ac nad yw'n wleidyddiaeth plaid. Yn yr un modd, rhaid i'r gweithgaredd hyrwyddo y gwneir hawliad amdano fod wedi'i gyfyngu i'r nod o hysbysu etholwyr Aelod (nid grwpiau ehangach o bobl) ac ni ddylid ei dargedu at gynulleidfa wleidyddol benodol neu er budd etholiadol.

**131.** Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cynnig addasu'r canllawiau sy'n ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol i atgoffa Aelodau o'r ffiniau y mae'n rhaid iddynt weithredu oddi mewn iddynt wrth ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn.

---

<sup>20</sup> Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Safonau'r Senedd ([comisiynyddsafonau.cymru.org](http://comisiynyddsafonau.cymru.org))



## Cynigion

**Cynnig 6.** Cynigir y dylid nodi'n glir na cheir ychwanegu deunyddiau ychwanegol o natur gwleidyddol plaid at eitemau/deunyddiau a gynhrychir ar gyfer ymgysylltu ag etholwyr gan ddefnyddio adnoddau'r Senedd.

**Cynnig 7.** Cynigir y dylid caniatáu i Aelodau gyfeirio at eu hymlyniad wrth blaid fel rhan o'r ffordd y maent yn hysbysu eu hetholwyr am sut maent yn cyflawni eu rôl fel Aelod o'r Senedd, ar yr amod ei fod yn cael ei wneud fel datganiad ffeithiol mewn testun plaen.

**Cynnig 8.** Cynigir y dylid lliniaru'r risg o ganfyddiad bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwleidyddol plaid drwy ddiddymu mynediad at gyllid seneddol ar gyfer unrhyw ddeunyddiau, boed yn rhai ffisegol neu ddigidol, sy'n defnyddio logos plaid neu arwyddluniau ymgyrchoedd gwleidyddol. Byddai hyn yn gymwys ar gyfer hawliadau a wneir o'r dyddiad y byddai'r rheolau diwygiedig yn cael eu rhoi ar waith.

Byddai'r canllawiau sy'n gysylltiedig â'r rheol hon yn atgoffa'r Aelodau y bydd eu defnydd o liw (gan gynnwys lliwiau brand eu plaid) a lluniau mewn deunydd ymgysylltu yn cyfrannu at y ffordd y mae'r deunyddiau hynny'n debygol o gael eu gweld gan sylwedydd teg a diduedd, ac y dylid cymryd gofal i osgoi canfyddiad bod y deunyddiau'n cynnwys gwleidyddiaeth plaid.

Byddai defnyddio logo'r Senedd, mewn ffyrdd penodol, yn cael ei ganiatáu.

**Cynnig 9.** Cynigir y dylid diwygio geiriad Rheol 10 i'w gwneud yn fwy eglur bod yn rhaid i wefan Aelod sy'n cael ei chreu neu ei chynnal gan ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn gael ei defnyddio mewn cysylltiad â dyletswyddau'r Aelod yn unig. Byddai'r cyfeiriad at logos neu frandio yn Rheol 10 hefyd yn cael ei ddileu i fod yn gyson â'r cynnig uchod.

**Cynnig 10.** Cynigir y dylid gwneud yn eglur y gofyniad am ddatganiad clir a syml, wedi'i arddangos mewn man amlwg ar wefan a ariennir gan ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn, yn nodi mai Comisiwn y Senedd sydd wedi talu costau'r wefan o arian cyhoeddus.

**Cynnig 11.** Cynigir y dylid ei gwneud yn eglur na ddylai gwefan a ariennir gan ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn gynnwys na mewnosod cynnwys gwleidyddol plaid.

**Cynnig 12.** Cynigir addasu'r canllawiau ynghylch cyfryngau cymdeithasol i atgoffa Aelodau o'r ffiniau y mae'n rhaid iddynt weithredu oddi mewn iddynt, ac i egluro, os ydynt yn defnyddio adnoddau'r Comisiwn, bod yn rhaid i weithgaredd hyrwyddo gael ei wneud yn unol â bwriad y ddarpariaeth, rhaid iddo beidio â bod yn weithgaredd gwleidyddol plaid, rhaid iddo beidio â thargedu cynulleidfau gwleidyddol plaid na chael ei wneud er budd etholiadol.

## 8. Cynigion ar fetio Diogelwch

---

### Cefndir

**132.** Mae Comisiwn y Senedd wedi mabwysiadu'r safonau fetio diogelwch a bennwyd gan Fetio Diogelwch Cenedlaethol, yn unol â seneddau eraill ledled y DU. Mae uned Fetio Diogelwch y Deyrnas Unedig, sy'n rhan o Swyddfa'r Cabinet, yn goruchwylio'r gwaith o bennu'r polisi ar gyfer Fetio Diogelwch Cenedlaethol y DU. Mae Fetio Diogelwch Cenedlaethol yn cynnwys Safon Diogelwch Personél Sylfaenol, Gwiriad Gwrth-derfysgaeth, a lle bo'n berthnasol, y Gwiriad Diogelwch lefel uwch.

**133.** Fel deiliaid swyddi etholedig, nid yw Aelodau o'r Senedd yn destun fetio diogelwch cyn cael pasys i'r adeilad. Mae pob Aelod yn gymwys yn awtomatig i gael pàs diogelwch i Ystâd y Senedd ar ôl tyngu llw.

**134.** Fodd bynnag, cynhelir gwiriadau diogelwch ar yr holl staff sy'n gweithio i Aelodau, staff y Comisiwn a chontractwyr. Mae'r holl bersonél sydd angen pàs ffotograffig i'r adeilad yn destun Gwiriad Gwrth-derfysgaeth. Mae staff Aelodau o'r Senedd yn perthyn i ddau gategori, maent naill ai wedi'u lleoli yn yr etholaeth neu yn y Senedd. Mae staff sydd wedi eu lleoli mewn etholaeth yn cael cliriad diogelwch i'r Safon Diogelwch Personél Sylfaenol (a rhoddir pàs ymwelydd iddynt ar yr ystad) tra bod staff sydd wedi eu lleoli yn y Senedd yn cael eu clirio i lefel Gwiriad Gwrth-derfysgaeth. Mae'r rhai sy'n gweithio yn y ddau hefyd yn cael cliriad Gwiriad Gwrth-derfysgaeth. Mae hyn yn cynnwys pob priod neu bartner sy'n gweithio i Aelod o'r Senedd.

**135.** Rhaid i gyflogeion, gan gynnwys cyflogeion Aelodau, gael eu fetio at ddibenion diogelwch cyn iddynt ddechrau gweithio, p'un a ydynt wedi'u lleoli yn Nhŷ Hywel neu yn rhywle arall.

### Ystyriaethau

**136.** Yn hanesyddol, byddai priod neu bartner nad ydynt yn gweithio i Aelod o'r Senedd yn cael pàs diogelwch heb fynd drwy'r broses fetio diogelwch. Mae hyn yn golygu bod y trefniadau ar gyfer y grŵp hwn o ddefnyddwyr yr adeilad yn gwyro'n fawr oddi wrth y mesurau diogelwch ar yr ystâd.

**137.** Er mwyn sicrhau bod y gofynion ar gyfer y grŵp hwn o ddefnyddwyr yr adeilad yn cydfynd â'r gofynion ar gyfer yr holl ddeiliaid pàs eraill (heb eu hethol) o dan safonau Fetio

---

Diogelwch Cenedlaethol, o'r Chweched Senedd ymlaen, bydd angen i briod neu bartner sydd am gael pàs ffotograffig i'r adeilad gwblhau gwiriad lefel Gwiriad Gwrth-derfysgaeth yn gyntaf. Byddai priod neu bartner heb bàs diogelwch yn dal i allu cael mynediad at yr ystad fel ymwelydd sy'n cael ei hebrwng.

**138.** Er mwyn bod yn eglur, cynigir hefyd y dylid diwygio geiriad y canllawiau i Reol 15 "Rhaid i bob un sy'n gweithio i Aelod gael ei fetio at ddibenion diogelwch cyn iddo ddechrau gweithio, p'un a yw wedi'i leoli yn Nhŷ Hywel neu yn rhywle arall." Mae hyn i'w gwneud yn gliriach na chaiff unrhyw un, ar wahân i Aelodau, ddechrau gweithio cyn mynd drwy'r broses fetio diogelwch, boed hynny'n rhywun sydd wedi'i leoli yn Nhŷ Hywel neu rywle arall.

**Cynnig 13.** Cynigir y dylid cysoni'r trefniadau ar gyfer priod/partner Aelodau â'r trefniadau ar gyfer defnyddwyr eraill (heb eu hethol) yr adeilad drwy ei gwneud yn ofynnol cwblhau gwiriadau diogelwch ar lefel Gwiriad Gwrth-derfysgaeth cyn rhoi pàs ffotograffig i'r adeilad.

**Cynnig 14.** Cynigir y dylid diwygio geiriad y canllawiau ar gyfer Rheol 15 i'w gwneud yn gliriach na chaiff unrhyw un, ar wahân i Aelodau, ddechrau gweithio cyn mynd drwy'r broses fetio diogelwch, boed hynny'n rhywun sydd wedi'i leoli yn Nhŷ Hywel neu rywle arall.

## 9. Eglurhad o'r geiriad

---

### Cefndir

**139.** Gwnaed sylwadau ynglŷn â ffyrdd y gellid addasu geiriad y Rheolau, naill ai er cysondeb neu i wneud yr ystyr yn gliriach.

**140.** Nid yw'r cynigion hyn yn ymwneud â newid sylwedd y Rheolau.

**141.** Yn yr un modd, mae rhai meysydd lle mae angen diweddaru'r cyfeiriadau at ddogfennau eraill, a bydd hyn yn cael ei wneud.

### Ystyriaethau

**142.** Mae ystyriaethau yn yr adran hon yn ymwneud â nifer o agweddau ar y Rheolau.

**143.** Mae'r swyddog Cyfrifyddu o'r farn y dylid gwneud y diffiniad o "gyfnod etholiad" yn gliriach, yn enwedig o ran etholiadau yng Nghymru neu leoliadau eraill.

**144.** Ers dechrau pandemig COVID-19 bu newidiadau sylweddol i'n hamgylchedd gwaith. Nid yw cyfarfodydd yn cael eu cynnal fel mater o drefn yn yr ystafelloedd cyfarfod ar ystad y Senedd. Yn hytrach, cynhelir llawer o gyfarfodydd ar-lein (e.e. drwy Zoom neu MS Teams) neu mewn fformat hybrid. Mae angen ei gwneud yn glir bod y Rheolau'n gymwys ar gyfer cyfarfodydd rhithwir fel y maent ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb a gynhelir ar ystad y Senedd.

**145.** Gellid gwneud y geiriad mewn perthynas â staff sy'n ymgymryd â gwaith y telir amdano gydag adnoddau'r Comisiwn, defnydd o wefannau (gan gynnwys ad-dalu costau cysylltiedig) a fetio diogelwch i gyd yn gliriach ac mae'r cynigion hynny wedi'u cynnwys yn yr adrannau priodol uchod.

**146.** Bwriedir ychwanegu testun hefyd at yr adran ragarweiniol 'Statws y Rheolau a'r Canllawiau' i wneud y cyd-destun ar gyfer y Rheolau a'r Canllawiau yn fwy eglur.

### Cynigion

**147.** Cynigir y dylid diwygio diffiniad cyfnod etholiad fel a ganlyn: "cyfnod etholiad" – yw unrhyw gyfnod fel y disgrifir isod yn is-baragraffau (i) i (viii):

- i. cyfnod pan mae'r Senedd wedi'i diddymu;
- ii. cyfnod pan mae Senedd y DU wedi'i diddymu;
- iii. cyfnod refferendwm fel y'i diffinnir gan adran 102 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000;
- iv. cyfnod sy'n dechrau pan fydd hysbysiad o etholiad wedi'i gyhoeddi ar gyfer ethol cynghorwyr ar gyfer ardal llywodraeth leol yng Nghymru, ac sy'n dod i ben ar ddiwrnod yr etholiad;
- v. cyfnod sy'n dechrau pan fydd hysbysiad o etholiad wedi'i gyhoeddi ar gyfer ethol cynghorydd ar gyfer ardal is-etholiad llywodraeth leol yng Nghymru, ac sy'n dod i ben ar ddiwrnod yr etholiad;
- vi. cyfnod sy'n dechrau pan fydd hysbysiad o etholiad wedi'i gyhoeddi ar gyfer ethol Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer unrhyw ardal yng Nghymru ac sy'n dod i ben ar ddiwrnod yr etholiad;
- vii. cyfnod sy'n dechrau pan wahoddir enwebiadau i ymgeiswyr sefyll am isetholiad ar gyfer sedd yn y Senedd ac sy'n dod i ben ar ddiwrnod yr etholiad; a
- viii. chyfnod sy'n dechrau pan wahoddir enwebiadau i ymgeiswyr sefyll am is-etholiad ar gyfer sedd Gymreig yn Senedd y DU ac sy'n dod i ben ar ddiwrnod yr etholiad.

**148.** O ran defnyddio adnoddau'r Senedd ar gyfer cyfarfodydd cynigir diwygio geiriad Rheolau 13 a 14 i nodi'r canlynol mewn perthynas â noddi digwyddiadau "Rhaid i aelodau beidio â noddi na threfnu digwyddiadau ar ystâd y Senedd, **neu a gefnogir fel arall gan Adnoddau'r Comisiwn**, sy'n cynnwys:..." ac mewn perthynas â neilltuo ystafelloedd cyfarfod "Ni chaniateir i Aelodau neilltuo, **na defnyddio**, ystafelloedd cyfarfod ar ystâd y Senedd ar gyfer busnes gwleidyddol unrhyw blaid".

**149.** Yn yr adran ragarweiniol (Statws y Rheolau a'r Canllawiau) cynigir cynnwys testun eglurhaol ychwanegol "Mae Rheol 8 o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gydymffurfio â'r Rheolau hyn, a gall Comisiynydd Safonau y Senedd ymchwilio i achosion honedig o dorri'r rheolau." "At hynny, gall unrhyw berson arall gwyno am gamddefnydd honedig o adnoddau'r Comisiwn i Gomisiynydd Safonau y Senedd." "Cyfrifoldeb pob Aelod yw sicrhau ei fod yn deall ac yn cydymffurfio â'r rheolau hyn." ac "Mae

---

gwybodaeth ychwanegol i gynorthwyo Aelodau i gydymffurfio â'r Rheolau hyn ar gael hefyd ar fewnwyd yr Aelodau."

**150.** Cynigir y dylid diwygio ystyr "dyletswyddau Aelod" i adlewyrchu'r geiriad yn y ddeddfwriaeth "– gweithgaredd mewn perthynas â busnes y Senedd a busnes etholaethol neu ranbarthol y bydd yr Aelod o'r Senedd yn ymgymryd ag ef".

**151.** Cynigir diwygio geiriad Rheol 4(1) i ychwanegu'r gair "gwasanaethau" er eglurder "(1) Rhaid i eitemau, **gwasanaethau** a chyfleusterau a brynir gydag adnoddau'r Comisiwn neu a ddarperir gan y Comisiwn at ddefnydd yr Aelodau gael eu defnyddio mewn cysylltiad â dyletswyddau Aelod yn unig."

**Cynnig 15.** Cynigir gwneud yr addasiadau a nodir yn adran 9 i wella eglurder y geiriad fel rhan o'r diwygiadau a wneir ar hyn o bryd i'r Rheolau.

## 10. Crynodeb o'r cynigion

---

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cynnig gwneud y newidiadau a ganlyn i'r Rheolau a'r Canllawiau ar ddefnyddio Adnoddau'r Senedd ar gyfer y Chweched Senedd:

**Cynnig 1.** Cynigir y dylid diwygio'r Rheol 3 bresennol i ddefnyddio geiriad mwy eglur drwy ddweud "Rhaid i Aelodau sicrhau bod yr holl staff a gyflogir ganddynt ond yn ymgymryd â gwaith sy'n gysylltiedig â dyletswyddau'r Aelod yn ystod yr amser y maent wedi'u contractio i ymgymryd â gwaith y telir amdano gydag adnoddau'r Comisiwn."

**Cynnig 2.** Cynigir y dylid ategu'r canllawiau i Reol 3 i gynghori bod yn rhaid i Aelodau ystyried pa brosesau y mae angen iddynt eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod eu staff yn ymgymryd â gwaith sy'n gysylltiedig â dyletswyddau'r Aelod (h.y. at y diben y gwneir y ddarpariaeth ar ei gyfer) yn unig yn ystod eu hamser gwaith. I rai Aelodau, gallai'r broses honno gynnwys cadw cofnodion cywir o oriau a weithiwyd gan bob aelod o staff, ond ni fydd yn ofynnol.

**Cynnig 3.** Cynigir y dylid cadw'r diffiniad presennol o 'weithgaredd gwleidyddol plaid', ond y dylid ychwanegu eglurhad i gynnwys cyfeiriad at ymgyrchu yn gyffredinol ac mewn refferenda. Felly byddai'r rheol yn darllen fel a ganlyn:

Ystyr "gwleidyddol plaid" – yw unrhyw beth allai ymddangos i sylwedydd teg a diduedd fel bod yn weithgaredd gwleidyddol, **neu geisio sicrhau canlyniad penodol mewnetholiad neu refferendwm (boed fel aelod o blaid wleidyddol gofrestrdig neu beidio)**, ond heb gynnwys trafodaethau ac ystyriaethau'r Aelodau a'u staff mewn perthynas â'r ymateb gwleidyddol i fusnes sydd gerbron y Senedd gan gynnwys busnes y grwpiau gwleidyddol yn y Senedd, [neu'r defnydd o logos neu frandio yn unol â'r Rheolau hyn]<sup>21</sup>.

**Cynnig 4:** Mewn perthynas â chanllawiau Rheol 1, ynghylch atebolrwydd personol Aelodau, dylid ei gwneud yn amlwg bod yn rhaid i Aelodau gofio, fel egwyddor gyffredinol, na ddylid defnyddio adnoddau'r Senedd ar gyfer gweithgaredd gwleidyddol plaid, drwy ychwanegu geiriau i'r perwyl hwn.

---

<sup>21</sup> Bydd y geiriau mewn cromfachau sgwâr yn desturn ystyriaeth bellach yng ngoleuni'r ymatebion i'r cynigion yn Rhan 7

---

**Cynnig 5** Cynigir cyflwyno gofyniad i ddefnyddio datganiad clir a syml pan fydd unrhyw weithgaredd cyfathrebu neu ymgysylltu a ariennir gan y Comisiwn yn arwain at gasglu data personol, er mwyn ei gwneud yn glir na fydd y data yn cael eu rhannu, ac eithrio achosion lle mae hynny'n angenrheidiol i gefnogi gwaith achos, ac y bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei thrin yn ddienw.

**Cynnig 6.** Cynigir y dylid ei gwneud yn eglur na ddylid ychwanegu at eitemau/deunyddiau a gynhrychir ar gyfer ymgysylltu ag etholwyr gan ddefnyddio adnoddau'r Senedd gyda deunyddiau ychwanegol o natur gwleidyddol plaid.

**Cynnig 7.** Cynigir y dylid caniatáu i Aelodau gyfeirio at eu hymlyniad wrth blaid fel rhan o'r ffordd y maent yn hysbysu eu hetholwyr am sut maent yn cyflawni eu rôl fel Aelod o'r Senedd, ar yr amod ei fod yn cael ei wneud fel datganiad ffeithiol mewn testun plaen.

**Cynnig 8.** Cynigir y dylid lliniaru'r risg o ganfyddiad bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwleidyddol plaid drwy ddiddymu mynediad at gyllid seneddol ar gyfer unrhyw ddeunyddiau, boed yn rhai ffisegol neu ddigidol, sy'n defnyddio logos plaid neu arwyddluniau ymgyrchoedd gwleidyddol. Byddai hyn yn gymwys ar gyfer hawliadau a wneir o'r dyddiad y byddai'r rheolau diwygiedig yn cael eu rhoi ar waith.

Byddai'r canllawiau sy'n gysylltiedig â'r rheol hon yn atgoffa'r Aelodau y bydd eu defnydd o liw (gan gynnwys lliwiau brand eu plaid) a lluniau mewn deunydd ymgysylltu yn cyfrannu at y ffordd y mae'r deunyddiau hynny'n debygol o gael eu gweld gan sylwedydd teg a diduedd, ac y dylid cymryd gofal i osgoi canfyddiad bod y deunyddiau'n cynnwys gwleidyddiaeth plaid.

Byddai defnyddio logo'r Senedd, mewn ffyrdd penodol, yn cael ei ganiatáu.

**Cynnig 9.** Cynigir y dylid diwygio geiriad Rheol 10 i'w gwneud yn fwy eglur bod yn rhaid i wefan Aelod sy'n cael ei chreu neu ei chynnal gan ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn gael ei defnyddio mewn cysylltiad â dyletswyddau'r Aelod yn unig. Byddai'r cyfeiriad at logos neu frandio yn Rheol 10 hefyd yn cael ei ddileu i fod yn gyson â'r cynnig uchod.

**Cynnig 10** Cynigir y dylid gwneud yn eglur y gofyniad am ddatganiad clir a syml, wedi'i arddangos mewn man amlwg ar wefan a ariennir gan ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn, yn nodi mai Comisiwn y Senedd sydd wedi talu costau'r wefan o arian cyhoeddus.



**Cynnig 11.** Cynigir y dylid ei gwneud yn eglur na ddylai gwefan a ariennir gan ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn gynnwys na mewnosod cynnwys gwleidyddol plaid.

**Cynnig 12.** Cynigir addasu'r canllawiau ynghylch cyfryngau cymdeithasol i atgoffa Aelodau o'r ffiniau y mae'n rhaid iddynt weithredu oddi mewn iddynt, ac i egluro, os ydynt yn defnyddio adnoddau'r Comisiwn, bod yn rhaid i weithgaredd hyrwyddo gael ei wneud yn unol â bwriad y ddarpariaeth, rhaid iddo beidio â bod yn weithgaredd gwleidyddol plaid, rhaid iddo beidio â thargedu cynulleidfa wleidyddol plaid na chael ei wneud er budd etholiadol.

**Cynnig 13.** Cynigir y dylid cysoni'r trefniadau ar gyfer priod/partner Aelodau â'r trefniadau ar gyfer defnyddwyr eraill (heb eu hethol) yr adeilad drwy ei gwneud yn ofynnol cwblhau gwiriadau diogelwch ar lefel Gwiriad Gwrth-derfysgaeth cyn rhoi pàs ffotograffig i'r adeilad.

**Cynnig 14.** Cynigir y dylid diwygio geiriad y canllawiau ar gyfer Rheol 15 i'w gwneud yn gliriach na chaiff unrhyw un, ar wahân i Aelodau, ddechrau gweithio cyn mynd drwy'r broses fetio diogelwch, boed hynny'n rhywun sydd wedi'i leoli yn Nhŷ Hywel neu rywle arall.

**Cynnig 15.** Cynigir gwneud yr addasiadau a nodir yn adran 9 i wella eglurder y geiriad fel rhan o'r diwygiadau a wneir ar hyn o bryd i'r Rheolau.

A oes unrhyw bwyntiau pellach yr hoffech eu gwneud ar hyn o bryd?

Tabl cymharu

	Tŷ'r Cyffredin	Senedd yr Alban	Cynulliad Gogledd Iwerddon
Corff sy'n goruchwylio gwariant	IPSA	Corff Corfforaethol Senedd yr Alban	Panel Adolygu Ariannol Annibynnol
Defnyddio logos pleidiau (mewn sefyllfaoedd gwahanol)	Nid yw IPSA yn caniatáu hawliadau am unrhyw beth gyda logo neu arwyddlun plaid ar wahân i wefannau.	Nid yw Senedd yr Alban yn caniatáu defnyddio logo plaid mewn unrhyw gyhoeddiad a ariennir drwy adnoddau seneddol – fel cylchlythyrau, arwyddion, hysbysebion, gwefannau ac ati. Ni all Aelodau ei ddefnyddio ar eu negeseuon e-bost seneddol ac ati chwaith	Mae Cynulliad Gogledd Iwerddon yn ei gwneud yn ofynnol i arwydd ar swyddfa Aelod gynnwys logo'r Cynulliad, a gall gynnwys enw neu logo plaid wleidyddol. Nid yw'n ymddangos bod aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon yn cael lwfansau ar gyfer ymgysylltu, ac eithrio ar gyfer rhoi gwybod am wybodaeth ffeithiol sy'n ymwneud â manylion cyswllt a chymorthfeydd.
Hawliadau am weithgaredd fel llefarwyr y pleidiau		Mae Senedd yr Alban yn darparu na ellir ad-dalu treuliau mewn perthynas â gweithgareddau Aelod lle maent yn ymwneud â rôl	

		Aelod fel llefarydd y blaid.	
Diogelu Data	Mae IPSA yn ei gwneud yn glir yn eu canllawiau na ddylai Aelodau Seneddol rannu data a gasglwyd drwy arolygon seneddol neu waith seneddol arall gyda phlaid wleidyddol		